**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 17-00(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 22 Tachwedd 2000 |
| **Amser:** | 9.00am hyd 12.25pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Yn bresennol* | |
| Christine Lewis | Y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd |
| Richard Howells | Cadeirydd, Grp Sector Cig Oen ac Eidion, Y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd |
| Wynfford James | Y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd |
| Rees Roberts | Cadeirydd, Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru |
| Don Thomas | Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru |
| Aled Griffiths | Clybiau Ffermwyr Ieuainc Cymru |
| Shân Ashton | Prosiect Integredig Gwledig Capel Curig |
| Richard Thomas | Menter Wledig Maldwyn |
| David Pritchard | Rheolwr Prosiect, Cyswllt Busnes Cymru |
| Andrew Leonard | Aelod o Fwrdd Cyswllt Busnes Cymru |
| Ann Watkin | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Yr Athro Terry Marsden | Ymgynghorydd Arbenigol |

| | |
|---|---|
| *Swyddogion* | |
| Mike Dunn (eitem 2) | Pennaeth, Adain Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Jasper Roberts (eitem 3) | Adain Datblygu Bwyd a Ffermio |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a chyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fudd a oedd yn berthnasol i'r cyfarfod. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr, a Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ffermwr.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** - ARD 17-00(p1)
2.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu caniatáu i Aelodau godi materion nad oeddent yn Adroddiad y Gweinidog ar yr amod ei fod wedi ei hysbysu yngln â'r cwestiwn ymlaen llaw.

2.2 Cyflwynodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yngln â'r Cyngor Amaethyddiaeth ym Mrwsel. Yn ystod yr ymweliad yr oedd hefyd wedi mynychu trafodaeth ar ddiwygio'r trefniadau cig oen. Yr oedd llawer o wledydd yn cytuno â Chymru bod ffermio defaid mewn ardaloedd llai ffafriol yn hanfodol i wead cymdeithasol ac economaidd cefn gwlad. Yr oedd Franz Fischler, y Comisiynydd Amaeth, wedi dweud y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried safbwyntiau o'r fath wrth baratoi cynigion ar gyfer diwygio'r trefniadau cig oen. Yr oedd hefyd yn amlwg bod gwledydd eraill yn cytuno â Chymru yngln â'r angen i gyflwyno a marchnata cig oen yn well ar gyfer sylfaen ehangach o gwsmeriaid.

2.3 Yr oedd y Cyngor Amaethyddiaeth wedi ystyried y sefyllfa gyda BSE yn Ffrainc. Cytunasid y byddai'r holl wartheg a oedd dros 30 mis oed yn Ewrop yn cael prawf BSE er mwyn cael darlun cliriach o batrwm achosion o'r clefyd. Cadarnhaodd y byddai'r prawf yn cael ei wneud ar ôl lladd yr anifail gan nad oedd prawf ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gwartheg byw. Yr oedd y Ffrancwyr wedi sefydlu rheolau llymach ac wedi gwahardd cig a blawd esgyrn o'r holl fwydydd i anifeiliaid. Teimlai mai rheolyddion BSE y DG oedd y rhai llymaf yn Ewrop.

2.4 Yna gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau a chodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- gofynnwyd i'r Gweinidog pwy fyddai'n talu costau'r profion ar wartheg dros 30 mis oed. Dywedodd ei fod ar ddeall y byddai'r wladwriaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd yn rhannu'r costau 50/50;
- Nid oedd Ffrainc wedi gweithredu'r rheoliadau Ewropeaidd ar ddeunydd a oedd â risg benodol. A fwriedid gwneud rhywbeth er mwyn gorfodi Ffrainc i wneud hynny? Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau penodol, ond yr oedd Ffrainc wedi cytuno i

wneud profion BSE mewn gwartheg dros 30 mis oed ac i edrych ar y ffordd yr oedd cig eidion yn cael ei brosesu er mwyn sicrhau nad oedd y broblem yn cael ei hallforio;

- gallai cwymp marchnad gig eidion Ffrainc a'r bunt gref arwain at sefyllfa lle byddai cig eidion o Ffrainc yn cyrraedd y DG. Yr oedd yn bwysig sicrhau bod unrhyw gig a oedd yn cael ei fewnforio dan 30 mis oed a bod modd ei olrhain yn briodol;
- pa gynnydd a oedd wedi ei wneud mewn perthynas â chodi gwaharddiad Ffrainc ar fewnforio cig eidion o Brydain? Dywedodd y Gweinidog fod y mater yn cael ei ystyried yn y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd;
- gofynnwyd i'r Gweinidog pa effaith yr oedd y broblem gyda BSE yn Ffrainc yn ei gael ar allforio defaid i Ewrop. Dywedodd ei fod wedi gweld adroddiadau yngln â chanslo archeb o Sbaen ond bod y farchnad Ffrengig yn dal ei thir yn dda ar hyn o bryd. Yr oedd y Comisiwn Cig a Da Byw a Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru yn ceisio rhoi sicrwydd i gwsmeriaid ac yr oedd y sefyllfa'n cael ei harolygu'n ofalus;
- gofynnwyd i'r Gweinidog beth oedd safbwynt y Cabinet mewn perthynas â diwygio'r trefniadau cig oen. Dywedodd wrth y Pwyllgor nad oedd y Cabinet am weld newidiadau sylfaenol i'r trefniadau ar hyn o bryd, yn enwedig gan mai newydd gael ei gyflwyno yr oedd y cynllun Tir Mynydd. Teimlai nad oedd llawer o gefnogaeth i newidiadau sylweddol i'r trefniadau yn Ewrop a chadarnhaodd, er nad oedd hynny wedi ei fynegi'n ffurfiol, fod y Comisiwn yn ymwybodol o safbwynt Cymru;
- holwyd y Gweinidog yngln â chyfreithlondeb y cnwd arbrofol a addaswyd yn enetig yn Sir y Fflint ac a oedd y llifogydd diweddar wedi achosi perygl o heintiad i dir a chnydau yn y cyffiniau. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y dadleuon yngln â chyfreithlondeb yr arbrofion yn dal i fynd rhagddynt ac nad oedd barn swyddogol wedi ei sefydlu eto. O safbwynt y posibilrwydd o heintio, dywedodd y byddai'n rhaid iddo dderbyn cyngor gwyddonol ond nad oedd yn ymwybodol o unrhyw berygl. Cytunodd i gynnwys unrhyw wybodaeth yn y llythyr yr oedd wedi ei addo ar yr arbrawf yn Sir y Fflint ynghyd â manylion yngln â pha bryd a sut yr oedd y cnwd i gael ei ddifa;
- nodwyd bod papur gwyn gwledig yn cael ei baratoi ar gyfer Lloegr a gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn bwriadu gwneud rhywbeth tebyg yng Nghymru. Atebodd y gallai'r weledigaeth ar gyfer ffermio yng Nghymru a oedd yn cael ei datblygu gan y Grp Strategaeth Dyfodol Ffermio fod yn asgwrn cefn i strategaeth wledig ar gyfer Cymru;
- yr oedd ffermwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a oedd yn cael ei gynnig gyda Thir Mynydd drwy'r cyfarfodydd cyhoeddus. Fodd bynnag, yr oedd yn bwysig bod cynigion ar gyfer newidiadau pellach i'r cynllun yn cael eu datblygu mewn da bryd cyn 2003 fel bod ffermwyr yn gallu cynllunio. Cytunodd y Gweinidog. Dywedodd mai'r bwriad oedd seilio'r cynllun diwygiedig ar fapiau digidol fel bod modd targedu cymorth tuag at ardaloedd lle yr oedd amgylchiadau'n gwneud ffermio'n anos. Yr oedd yn bwysig symud oddi wrth drefniadau cymhorthdal a oedd yn seiliedig ar nifer yr anifeiliaid neu faint fferm;
- gofynnwyd i'r Gweinidog sut yr oedd yn bwriadu ymateb i adroddiad Haskins ar y baich gweinyddol oedd ar ysgwyddau ffermwyr. Dywedodd y Gweinidog fod yr adroddiad yn berthnasol i Loegr yn unig ac nad oedd yn briodol iddo ef ymateb yn ffurfiol. Ychwanegodd nad oedd yr adroddiad yn gategorïaidd, fel yr awgrymwyd mewn rhai adroddiadau yn y cyfryngau, wrth ddweud bod rheolau biwrocrataidd yn gosod baich annheg ar ffermwyr. Yr oedd pryder y

cyhoedd yngln â diogelwch bwyd a'r amgylchedd yn golygu nad oedd llawer o bosibiliadau ar gyfer dadreoli yn y meysydd hyn. Hefyd, nid oedd rheoliadau amgylcheddol mor llym yn y DG ag yr oeddent mewn sawl gwlad arall yn Ewrop. Awgrymodd y byddai'r Pwyllgor, o bosibl, yn hoffi ystyried y materion a godwyd yn yr adroddiad fel yr oeddent yn effeithio ar Gymru;

- gofynnwyd i'r Gweinidog egluro'r cynnig i godi'r uchafswm o 90 o bennau a oedd ynghlwm wrth y Cynllun Premiwm Blynyddol Eidion. Dywedodd fod Lloegr a'r Alban yn awyddus i godi'r uchafswm. Nid oedd y gwaith ymgynghori wedi ei gwblhau yng Nghymru eto ac yr oedd safbwyntiau gwahanol yn cael eu mynegi. Byddai penderfyniad yn cael ei wneud pan fyddai'r gwaith ymgynghori wedi ei gwblhau ond byddai unrhyw weithredu i godi'r uchafswm yn gorfod bod yn gyson drwy'r DG.

*Pwyntiau gweithredu*

2.5 Cyngor yngln â'r tebygolrwydd o heintiad o'r cnwd arbrofol a addaswyd yn enetig yn Sir y Fflint i'w gynnwys yn y llythyr sy'n cael ei baratoi - **Gweinidog** (Adain yr Amgylchedd)

**Eitem 3: Y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd** - ARD 17-00(p2a); ARD 17-00(p2b)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Christine Lewis, Richard Howells, Wynfford James, Rees Roberts a Don Thomas i'r cyfarfod.

3.2 Rhoddodd Christine Lewis eglurhad byr o rôl a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth Amaeth-Bwyd.

3.3 Amlinellodd Richard Howells y prif bwyntiau a gyflwynwyd yn y papur a oedd gerbron y pwyllgor. Yr oedd gwaith cynnar Grp y Sector Cig Oen ac Eidion wedi ymwneud yn bennaf â sefydlu Cwmni Cig Gymru. Yr oedd bellach yn ystyried canolbwyntio ar feysydd eraill megis datblygu cynnyrch, ardystio'r gadwyn cyflenwad ffermydd, labelu, marchnadoedd arbenigol a datblygu cysylltiadau gydag arwerthwyr.

3.4 Dim ond 15% o wartheg Cymru oedd yn cael eu lladd yng Nghymru. Yr oedd y Comisiwn Cig a Da Byw yn gwneud arolwg o'r hyn y gallai lladd-dai Cymru ei wneud a'u potensial i gynyddu'r ganran hon. Pe bai'r arolwg yn dangos bod angen i'r lladd-dai wneud mwy byddai angen grantiau. Yr oedd ar ladd-dai bach Cymru angen cymorth, ac yr oedd yn croesawu'r arian a oedd wedi ei nodi ar gyfer y sector yng nghyllideb y flwyddyn nesaf. Yr oedd y cynllun datblygu ffermydd yn bwysig iawn i waith y Grp er mwyn gwella ansawdd da byw Cymru. Nid oedd atebion dros nos i broblemau amaethyddol Cymru ond byddai gwaith y Bartneriaeth yn helpu i sicrhau dyfodol tymor hir y diwydiant.

3.5 Amlinellodd Rees Roberts y pwyntiau a oedd wedi eu nodi yn y papur gan Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru, un o'r sefydliadau sy'n rhan o'r Bartneriaeth Amaeth-Bwyd. Dywedodd fod cig oen o Gymru wedi ei sefydlu fel un o'r cigoedd mwyaf blaenllaw ond bod angen gwella delwedd cig eidion o Gymru. Un mater a oedd yn peri pryder oedd bod angen gallu gwneud mwy yng Nghymru er mwyn cwrdd â'r cynllun allforio a oedd yn seiliedig ar ddyddiad.

3.6 Yna gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau gan y Pwyllgor. Codwyd y pwyntiau isod:

- yr oedd yn galonogol clywed am y dulliau gweithredu cydweithredol yr oedd y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd wedi eu mabwysiadu ond awgrymwyd y gellid dysgu gwersi o brofiad gwledydd eraill, yn enwedig Iwerddon a'r Eidal. Dylid hybu delwedd iach cig oen ac eidion o Gymru;
- gofynnwyd i'r Bartneriaeth pa gynlluniau oedd ganddi i gynyddu'r cyflenwad o gig eidion wedi ei labelu fel cig o Gymru pan mai dim ond 15% o'r gwartheg oedd yn cael eu lladd yng Nghymru. A ellid labelu gwartheg a leddid mewn lladd-dai yn Lloegr fel rhai Cymreig? Dywedodd Don Thomas y gellid labelu anifeiliaid a oedd wedi eu geni a'u magu yng Nghymru a'u lladd mewn lladd-dai cymeradwyedig fel rhai Cymreig, ond yr oedd yn bwysig iawn cynnal ansawdd y label Gymreig er mwyn cadw ei gwerth. Dywedodd Rees Roberts fod y rhan fwyaf o yn Cymru bellach yn cael eu lladd mewn lladd-dai yng Nghymru, a bod hyn wedi golygu na allent ladd cymaint o wartheg. Yr oedd yn bwysig sicrhau bod lladd-dai Cymru'n gallu gwneud mwy er mwyn cadw gwaith prosesu a oedd yn ychwanegu ag werth cig yng Nghymru;
- yr oedd datblygu cynnyrch yn galw am sgiliau gwahanol i ffermio. Pwy oedd yn gyfrifol am hyn ac a oedd y gwaith yn cael ei ddyblygu? Nododd y Pwyllgor fod gan y Bartneriaeth rôl gyd-drefnu a oedd yn sicrhau nad oedd gwaith yn cael ei ddyblygu. Yr oedd dwy agwedd i ddatblygu cynnyrch. Yr oedd cwmnïau'n cael eu hannog i ddatblygu eu cynnyrch eu hunain ac yr oedd gwaith datblygu'n cael ei wneud mewn canolfannau rhagoriaeth megis Horeb, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd a Llangefni. Yr oedd yr Awdurdod Datblygu'n darparu cyllid craidd er mwyn annog cwmnïau bach i ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu;
- yn dilyn cais mewn cyfarfod blaenorol, yr oedd y pwyllgor wedi derbyn rhestr o geisiadau am gyllid Amcan 1 a oedd yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth a datblygu gwledig. Gofynnwyd i'r Bartneriaeth am fwy o fanylion yngln â sut yr oedd yr arian i'w ddefnyddio. Dywedodd Wynfford James fod dwy elfen i'r cyllid Amcan 1. Yr elfen gyntaf oedd y Cynllun Datblygu Amaeth-Bwyd, cynllun carlam a oedd yn cynnwys Grantiau Prosesu a Marchnata, y Cynllun Prosesu Bwyd a'r Cynllun Menter a Gwelliannau ar Ffermydd. Yr ail elfen oedd y Gronfa Ddatblygu – Cyswllt Fferm;
- beth oedd yn cael ei wneud er mwyn cynyddu aelodaeth Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru? Cytunodd Rees Roberts fod angen cael mwy o aelodau. Yr oedd aelodau'n ymuno o'u gwirfodd a chredai y byddai llwyddiant Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru yn annog ffermwyr i ymuno;
- faint o yn mynydd Cymreig oedd Safeway yn eu derbyn dan y contract a sicrhawyd drwy Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru? Dywedodd Don Thomas fod y contract ar gyfer 70,000 o yn a bod siopau eraill yn dangos diddordeb erbyn hyn;
- yr oedd logo'r tractor coch wedi ei ddatblygu ar gyfer cynnyrch o Brydain, ond pa gynlluniau oedd gan y Bartneriaeth i ddatblygu label Gymreig a pha effaith fyddai hynny'n ei gael ar bris y farchnad i ffermwyr? Dywedodd Christine Lewis fod strategaeth ar gyfer labeli Cymreig yn cael ei datblygu a'i phrofi ac y byddai'r cynigion yn barod erbyn y Gwanwyn. Ni ellid cynnig unrhyw sicrwydd yngln â'r prisiau ond dylai helpu i greu marchnad fwy. Ychwanegodd Don Thomas na allai Cymru gystadlu o safbwynt pris yn unig a bod angen datblygu label ansawdd gref;
- gofynnwyd i'r Bartneriaeth sut y gellid gwneud cig oen yn fwy deniadol i gwsmeriaid iau a chymunedau lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd Rees Roberts fod dewisiadau coginio newydd a

oedd yn hybu cig oen fel bwyd cyfleus yn cael eu datblygu. Yr oedd cymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi bod yn tueddu i brynu darnau rhatach o gig ond yr oedd hyn yn newid ac yr oedd posibiliadau ar gyfer rhagor o ddatblygiadau;

- gofynnwyd i'r Bartneriaeth pa bryd y byddai ei strategaethau'n dechrau goresgyn yr anawsterau sy'n gysylltiedig â ffermio ar hyn o bryd. Nid oedd y Bartneriaeth yn teimlo y gallai roi ateb pendant ond yr oedd yn hyderus y byddai'r ffordd yr oedd ei gwaith yn canolbwyntio ar y tymor hir yn fanteisiol. Nododd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o gyllid Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru yn dod gan ffermwyr drwy danysgrifiadau aelodau a thaliadau'r Comisiwn Cig a Da Byw a chyllid yr Awdurdod Datblygu;
- mynegwyd y farn ei bod yn bwysig bod y diwydiant yn gweithio gydag arwerthwyr a bod cyfleusterau lladd a phrosesu a fyddai'n gallu gweithredu'r cynllun allforio sy'n seiliedig ar ddyddiad yn cael eu datblygu yng Nghymru.

3.6 Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd am eu cyflwyniad.

**Eitem 4: Adolygiad Arallgyfeirio** - ARD 17-00(p5); ARD 17-00(p6)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Aled Griffiths, Shân Ashton a Richard Thomas i'r cyfarfod.

4.2 Dywedodd Aled Griffiths wrth y Pwyllgor ei fod yn ffermwr, ei fod yn gweithio i undeb ffermio a'i fod yn Gadeirydd Clybiau Ffermwyr Ieuainc Cymru (CFfI Cymru). Yr oedd pobl ifanc yn awyddus i aros yng Nghymru wledig ond yr oedd incwm isel yn gwneud hynny'n anodd. Yr oedd CFfI Cymru o ganlyniad wedi datblygu'r Cynllun Menter Gwledig gyda'r bwriad o gynnig cymorth â phrosiectau arallgyfeirio. Y prif anawsterau a oedd yn wynebu ffermwyr ieuainc oedd sicrhau cyfalaf, cael caniatâd cynllunio a delio gyda threfniadau rheoleiddiol. Dywedodd fod nifer o anghysonderau mewn gwahanol rannau o Gymru wledig yr oedd angen rhoi sylw iddynt.

4.3 Dywedodd Shân Ashton fod Prosiect Integredig Gwledig Capel Curig wedi ei sefydlu gan y gymuned er mwyn rhoi sylw i'w phroblemau. Yr oedd y rhain yn cynnwys unigrwydd, incwm isel, prinder cyfleoedd ar gyfer gwaith, prinder tai rhesymol eu pris a chludiant cyhoeddus gwael. Nid oedd y gymuned wedi cael llawer o gymorth gan yr asiantaethau cyhoeddus ac yr oedd yn datblygu ei phartneriaeth ei hun a oedd yn cynnwys y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol er mwyn rhoi sylw i'w phroblemau. Yr oedd yn rhaid i'r atebion ddod o'r gymuned ei hun. Y nod oedd creu 15 o swyddi. Byddai adeiladau diangen yn cael eu haddasu er mwyn darparu canolfannau dehongli ar gyfer ymwelwyr, gweithdai a chyfleusterau eraill.

4.4 Dywedodd Richard Thomas wrth y Pwyllgor ei fod yn ffermwr a'i fod yn gadeirydd Menter Wledig Maldwyn a oedd wedi tyfu o gylch peiriannau a sefydlwyd â chyllid Leader. Yr oedd hefyd yn Gadeirydd ar grp cynhyrchwyr yn a oedd yn cynnwys cynllun hyfforddi ar gyfer tua 1,250 o ffermwyr. Er mwyn cynhyrchu incwm ar gyfer y cylch peiriannau drwy dwristiaeth a phrosiectau arallgyfeirio eraill paratowyd cais am gyllid amcan 5. Darparwyd cymorth gwerthfawr drwy Fenter Powys ond bu'n anodd iawn cael arian cyfatebol. Yr oedd cystadleuaeth niweidiol rhwng asiantaethau cyhoeddus ac yr

oedd yn anodd darganfod pa asiantaeth oedd yn gyfrifol am beth.

4.5 Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn.

4.6 Yr oedd cyfyngiadau cynllunio wedi eu nodi fel problem. Sut allai'r Cynulliad helpu? Ym mha ffyrdd nad oedd y system bresennol yn berthnasol i anghenion Cymru?

- Dywedodd Shân Ashton fod y system gynllunio yn dilyn patrwm Lloegr o gyfyngu datblygiadau i ardaloedd oddi mewn i ffiniau pentrefi. Yng Nghymru wledig yr oedd hyn yn arwain at ddadfeilio'r amgylchedd diwylliannol ac adeiledig. Yr oedd angen i'r system fod yn fwy hyblyg ac yn fwy atebol i amgylchiadau lleol gan ganiatáu defnydd mwy creadigol o'r stoc adeiladau bresennol.

4.7 Sut y gellid rhoi sylw i gystadleuaeth rhwng asiantaethau a pha mor bwysig oedd cael un pwynt cyswllt i ddarparu cyngor?

- Dywedodd Richard Thomas nad oedd problem ar y cyfan pan oedd un asiantaeth gynorthwyo yn delio gyda phrosiect, ond yr oedd anawsterau'n codi pan oedd mwy nag un asiantaeth yn gysylltiedig. Yr oedd angen system grantiau gyda fframwaith priodol, a oedd yn gwneud gwell defnydd o'r cyllid sydd ar gael. Yr oedd gormod o ymgynghorwyr yn ymwneud â'r gwaith o asesu ceisiadau am grantiau. Dywedodd y gallai ffermwyr ddysgu llawer gan ddiwydiant yngln â rheoli busnes a theimlai y gellid datblygu cynlluniau mentora a lleoliadau tymor byr.

4.8 Yr oedd prinder tai rhesymol eu pris yn ei gwneud yn anos i bobl ifanc aros yng Nghymru wledig ac yr oedd yn fater na allai'r Pwyllgor ei anwybyddu. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor glywed gan sefydliadau fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig. A ddylai asiantaethau cynghori a chyllido ddatblygu cynlluniau penodol er mwyn datblygu cyfleoedd i bobl ifanc?

- Cytunodd Aled Griffiths fod hwn yn syniad da ac ychwanegodd y byddai'n croesawu unrhyw beth a fyddai'n helpu pobl ifanc i aros yng Nghymru wledig ac i warchod yr iaith a'r diwylliant;
- Dywedodd Shân Ashton fod angen datblygu'r cysyniad o ddysgu gydol oes. Yr oedd Prifysgol Bangor yn datblygu cyrsiau mewn rheolaeth cefn gwlad, datblygu cymunedau a threftadaeth a fyddai o fudd i bobl a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dechrau defnyddio sgiliau lleol megis codi waliau sych yn hytrach na dod â sgiliau i mewn i'r ardal o'r tu allan.

4.9 Yr oedd syniad bod y trefniadau cyfredol ar gyfer cefnogi busnesau yn dameidiog ac yn ddi-drefn. Sut y gellid datrys hyn?

- Cytunodd Aled Griffiths fod angen mwy o gysondeb a bod angen annog asiantaethau cynghori i gyd-drefnu eu gwaith. Teimlai y byddai Cyswllt Ffermio yn dod â'r asiantaethau sy'n cynnig cyngor i ffermwyr at ei gilydd. Gellid cymhwyso'r un cysyniad i sectorau eraill megis twristiaeth;

- Dywedodd Richard Thomas fod angen symleiddio'r system yn ei chyfanrwydd. Gellid dysgu gwersi o'r system a oedd yn cael ei gweithredu yn Iwerddon. Gwyddai o brofiad fod cyngor anghywir neu wrthgyferbyniol wedi ei ddarparu yn aml gan asiantaethau cyhoeddus;
- Dywedodd Shân Ashton nad yr asiantaethau mawr oedd y cyrff priodol i gefnogi datblygu cymunedol. Ar y lefel leol, yr oedd ar gymunedau angen cefnogaeth hawdd cael gafael arni, cefnogaeth yr oedd grwpiau Leader ac awdurdodau lleol gyda sector datblygu cymunedau ymroddedig ar y cyfan yn fwy abl i'w darparu.

4.10 Hysbyswyd y Pwyllgor bod y gwaith o sicrhau cyllid yn aml yn cymryd gormod o amser. Pa mor fanteisiol oedd cael gafael ar grantiau bychain yn gyflym a sut y gellid cyflymu'r system?

- Dywedodd Aled Griffiths ei bod yn bwysig iawn nad oedd busnesau newydd yn gorfod aros am grantiau neu byddent yn mynd i'r wal;
- Dywedodd Richard Thomas fod prosiectau da yn aml yn methu â chael arian gan fod asiantaeth wedi cyrraedd ei chwota lleol. Yr oedd angen gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a oedd ar gael ledled Cymru. Yr oedd y cyllid yn dameidiog ac yr oedd yn aml yn dod o nifer o wahanol ffynonellau. Pe bai cais am grant o un ffynhonnell yn aflwyddiannus byddai'r prosiect cyfan yn y fantol;
- Canmolodd Shân Ashton Ganolfan Gydweithredol Cymru am y cymorth a ddarparwyd ganddi. Anogodd y Cynulliad i barhau i ariannu cynllun grantiau bychain y Parciau Cenedlaethol a oedd wedi bod yn fuddiol iawn.

4.11 Yna croesawodd y Cadeirydd Andrew Leonard a David Pritchard i'r cyfarfod. Dywedodd Andrew Leonard mai Cyswllt Busnes Cymru oedd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob busnes yng Nghymru. Yr oedd yn ceisio cyd-drefnu gwasanaethau a sicrhau nad oedd gwaith yn cael ei ddyblygu. Yna amlinellodd David Pritchard ac yntau y prif bwyntiau a oedd yn y papur a ddarparwyd gan Gyswllt Busnes Cymru. Yr oedd Bwrdd Cyswllt Busnes yn cydnabod bod angen ansawdd da a chysondeb. Yr oedd angen atebion gwahanol yn aml ar gyfer gwahanol sectorau ond yr oedd yn bwysig iawn bod Cyswllt Busnes yn parhau fel yr un pwynt cyswllt ar gyfer pob cyngor yn ymwneud â busnes.

4.12 Yna codwyd y pwyntiau a ganlyn.

4.13 A oedd Cyswllt Busnes Cymru'n darparu gwasanaeth cyson ar hyn o bryd?

- Dywedodd Andrew Leonard fod y gwasanaeth yn gyson ond bod cyfyngiadau. Yr oedd yn bwysig cofio bod cyngor yn cael ei ddarparu drwy rwydwaith o bartneriaid nad oedd gan Gyswllt Busnes reolaeth uniongyrchol drostynt. Ychwanegodd David Pritchard y byddai adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o gefnogaeth i fusnesau yn ceisio egluro rôl Cyswllt Busnes fel y pwynt cyswllt cyntaf. Yr oedd cysondeb yn dibynnu ar sefydlu safonau cenedlaethol sylfaenol ond yr oedd yn anodd sicrhau hyn pan oedd cyngor yn cael ei ddarparu'n lleol drwy nifer o asiantaethau gyda gwahanol fframweithiau a dulliau gweithredu.

4.14 Faint o ffermwyr oedd wedi derbyn cyngor drwy Gyswllt Busnes a sut yr oedd Cyswllt Busnes yn sicrhau bod cyngor yn cyrraedd y rhai a oedd ei angen?

- Dywedodd David Pritchard nad oedd modd darparu dadansoddiad o'r cyngor a ddarperid fesul sector ar hyn o bryd. Yr oedd system reoli clientau newydd yn cael ei datblygu a byddai'r wybodaeth ar gael ar ôl 1 Ebrill 2001. Gellid darparu ffigyrau yngln â nifer y bobl a oedd yn cael eu cyfeirio o'r Llinell Gymorth ar gyfer Ffermwyr.

4.15 Beth oedd yn cael ei wneud er mwyn annog mwy o bobl i ddangos diddordeb mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)?

- Dywedodd David Pritchard wrth y Pwyllgor fod gan Gyswllt Busnes 22 canolfan TGCh ledled Cymru, a bod nifer ohonynt mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd tystiolaeth bod mwy o bobl yn dangos diddordeb mewn TCGh ac yn ei defnyddio ond yr oedd amrywiadau rhwng gwahanol sectorau. Yr oedd angen gwneud rhywbeth er mwyn annog mwy o bobl i ddangos diddordeb ac yr oedd Cyswllt Busnes yn awyddus i ddod â chyfleoedd newydd at ei gilydd drwy gyd-drefnu a darparu mentrau fel Busnesau Bach a Chanolig eu Maint, UK Online a Gwell Busnes Cymru.

4.16 Yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau nad oedd anghenion busnesau gwledig yn cael eu hanwybyddu yn adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o gefnogaeth i fusnesau. Gofynnwyd am sylwadau Cyswllt Busnes.

- Dywedodd Andrew Leonard fod gan bob sector ei broblemau penodol ei hun ond bod y problemau sylfaenol yr un fath ym mhob sector busnes gan ddibynnu ar faint busnes a'i safle yn y cylch economaidd. Y nod oedd darparu cyngor o'r ansawdd gorau ac mewn ffordd a oedd yn briodol i'r cymorth y gofynnid amdano. Yr oedd archwiliad ansawdd wedi ei gomisiynu a byddai'n edrych ar bob sector. Dywedodd David Pritchard fod sylw'n cael ei roi i sicrwydd ansawdd drwy gyfrwng archwiliadau ansawdd gyda phob partner sy'n cynnig cyngor, ymarferion siopwr dirgel ac arolygon yn ymwneud â bodlonrwydd cwsmeriaid.

4.17 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu cyfraniadau.

**Eitem 5: Adroddiad ac Ymateb yr Ombwdsmon** - ARD 17-00(p3)

5.1 Atgoffaodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod yr Aelodau wedi cytuno yn y cyfarfod ar 11 Hydref na fyddai adroddiadau'n cael eu trafod yn y Pwyllgor yn y dyfodol oni bai fod yr Ombwdsmon yn anfodlon â'r camau dilynol a gymerwyd gan y Cynulliad neu os oedd Aelodau'n rhoi hysbysiad ymlaen llaw yngln â materion arbennig yr oeddent yn dymuno eu codi.

5.2 Gofynnodd Mick Bates am gael codi mater a oedd yn gysylltiedig â'r adroddiad, ond gan nad oedd y swyddogion perthnasol yn bresennol nid oedd hyn yn bosibl. Cytunwyd y dylid cynnwys eitem ar agenda'r pwyllgor nesaf er mwyn i'r Aelodau gael trafod sut i ddelio gydag adroddiad yr Ombwdsmon

yn y dyfodol.

5.3 Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad blynyddol er mwyn helpu i nodi problemau a oedd yn codi dro ar ôl tro.

5.4 Cytunodd y Pwyllgor ar yr ymateb drafft y gallai'r Prif Ysgrifennydd ei anfon yn yr achos hwn.

*Pwyntiau gweithredu*

5.5 Eitem i'w chynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf er mwyn trafod sut i ddelio gydag adroddiadau yn y dyfodol - **Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 8 Tachwedd** - ARD 16-00(min)
6.1 Yr oedd paragraff 4.6 o'r cofnodion yn cyfeirio at ddatganiadau a gafodd eu gwneud yng Nghytundeb y Bartneriaeth yngln â chyllido Tir Gofal. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu eglurhad ar y pwynt hwn yn ei adroddiad nesaf i'r Pwyllgor.

6.2 Yna mabwysiadodd y Pwyllgor y cofnodion.

*Pwyntiau gweithredu*

6.3 Eglurhad yngln â'r cyllid ar gyfer Tir Gofal dros y tair blynedd nesaf i'w gynnwys yn adroddiad y Gweinidog ar gyfer y cyfarfod nesaf - **Gweinidog** (Adain Bwyd a Ffermio)

**Deddfwriaeth Ewropeaidd** – Papur i'w nodi - ARD 17-00(p4)
7.1 Croesawyd y papur ar effaith deddfwriaeth Ewropeaidd ar waith y Pwyllgor ac awgrymwyd y dylid neilltuo amser ar gyfer trafodaeth yn y Pwyllgor cyn yr ymweliad â Brwsel.

*Pwyntiau gweithredu*

7.2 Trafodaeth o'r papur i'w chynnwys ar agenda cyn ymweliad y Pwyllgor â Brwsel - **Ysgrifenyddiaeth**

**Ysgrifenyddiaeth** **Tachwedd 2000**